Arglwydd bywyd, tyred atom

Caneuon Ffydd: Rhif 551

Arglwydd bywyd, tyred atom,
gobaith holl dylwythau'r llawr,
yn dy wanwyn gwena arnom,
rho i'n llwydni degwch gwawr;
tyred, Arglwydd,
ti yw'r atgyfodiad mawr.

Er ein gallu gweiniaid ydym,
tlawd yw dysg heb olud ffydd,
o addoli nerthoedd daear
ni ddaw dyn o'i rwymau'n rhydd;
derfydd grymoedd:
erys grym y trydydd dydd.

Pan fo anghrediniaeth chwerw
heddiw'n cau amdanom ni,
pan ddiffygia'r breichiau dynol
yn ein gwendid clyw ein cri;
treigla'r meini,
Arglwydd, rhyngom a thydi.

O. T. EVANS (1916–2004)

MYFYRDOD

Gobaith yr atgyfodiad, wrth gwrs, yw thema O. T. Evans yn yr emyn hwn. Dyma yw 'gobaith holl dylwythau'r llawr', a dyma'r grym sydd yn aros pan mae grymoedd llywodraethau'r ddaear yn darfod, oherwydd hwn yw 'grym y trydydd dydd'. Tlawd iawn ydym hefyd os dibynnwn ar ddysg a gwybodaeth heb fod 'golud ffydd' yn cyfoethogi'n bywyd a chyfrannu gobaith inni.

Pan fydd 'anghrediniaeth chwerw' yn cau amdanyn nhw, beth sydd i'w gynnig yn obaith i'r rhai sydd â'u calonnau'n doredig gan alar, yn flin yn eu hymchwil am atebion oherwydd grym

marwolaeth, ac oherwydd eu bod wedi eu hymddiried eu hunain i ddysg, nerthoedd a grymoedd y ddaear hon yn unig? Mentrwn rannu gobaith yr atgyfodiad mawr gyda nhw, a sôn wrthyn nhw am Lasarus, yr hwn fu i Iesu ei godi o farw'n fyw (Ioan 11). Mae Iesu'n caniatáu inni ofyn cwestiynau. Gofynnodd Martha, chwaer Lasarus, i bob pwrpas: 'Lle'r oeddet ti, Arglwydd, pan oedden ni dy eisiau di?' Ond doedd Iesu ddim yn flin gyda Martha am ei gwestiynu, ond aeth ati i'w chysuro ac, yn y man hefyd, fe wylodd. Nid oherwydd na allai wneud dim byd yn wyneb marwolaeth, ond oherwydd ei fod yn esiampl inni, ac yn teimlo poen galar ac yn ei wynebu fel y dylem ninnau, ac nid ei guddio.

Yn wyneb angau ei hun fe gynigiodd Iesu obaith i Martha, y gobaith hwnnw oedd i ddod yn obaith i 'holl dylwythau'r llawr': 'Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd', meddai wrthi hi, a Martha oedd y cyntaf i gredu ac i ymateb i'r 'atgyfodiad mawr' pan ofynnodd Iesu iddi hi: 'A wyt ti'n credu hyn?' 'Ydwyf, Arglwydd, yr wyf fi'n credu mai tydi yw'r Meseia, Mab Duw, yr Un sy'n dod i'r byd,' oedd ei hymateb hithau, a hynny cyn cael prawf o atgyfodiad ei brawd na bod sôn am farwolaeth ac atgyfodiad Iesu ei hun hyd yn oed. Rhoddodd ei ffydd a'i gobaith i gyd ynddo ac ni chafodd hi mo'i siomi. Fe alwyd ar Lasarus i ddod allan o'r bedd, a daeth yntau allan ac fe ddatodwyd ei rwymau a gadael iddo fynd. O hynny ymlaen, fe fu cynllwynio yn erbyn Iesu ac roedd 'yr atgyfodiad a'r bywyd' â'i wyneb tuag at y groes, ond yn sicr o'r gobaith oedd y tu draw iddi hi, ac o rym y trydydd dydd a fyddai'n rhoi'r sêl terfynol ar ei eiriau: 'Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd.'

GWEDDI

Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a wnest ti yn Arglwydd bywyd ac yn obaith bywiol i ni ac i holl dylwythau'r llawr, gofynnwn iti hydreiddio'n calonnau â'r gobaith hwnnw fel na fydd anghrediniaeth chwerw yn cael lle i gau amdanom o gwbl. Mae popeth arall y gobeithiwn ni ynddo yn ein siomi, ond mae grym y trydydd dydd a gobaith yr atgyfodiad mawr yn fyw heddiw fel erioed. Ynot ti yr ymddiriedwn, Iesu, am mai 'tydi yw'r Meseia, Mab Duw, yr Un sy'n dod i'r byd'. Amen.